WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2014

677A2014

# Asesiad Strwythurol 2014 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adborth cryno ar ganfyddiadau

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynnwys y cyflwyniad hwn

1. Cyd-destun
2. Nodau Asesiad Strwythuredig 2014
3. Adborth ar ganfyddiadau a chasgliadau allweddol
4. Argymhellion
5. Y camau nesaf

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyd-destun Cenedlaethol

- Mwy o waith craffu ar Ansawdd a Diogelwch Gwasanaethau.
- Heriau ariannol sylweddol.
- Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a hyblygrwydd ariannol.
- Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd.
- Ffocws ar ofal iechyd darbodus.
- Ffocws y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar drefniadau llywodraethu a sefyllfa ariannol y GIG.
- Y sylw mawr a roddir i berfformiad y GIG yn y cyfryngau.
- Y galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio, yn gynyddol gymhleth, ac yn fregus.

# Cyd-destun Lleol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu nifer o heriau sylweddol dros y 18 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Heriau o ran llywodraethu a nodwyd mewn adolygiad ar y cyd gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru.
- Newidiadau mawr o ran arweinyddiaeth ac ailgyfansoddi'r Bwrdd a'r tîm gweithredol.
- Yr angen i ailennyn hyder y cyhoedd
- Diffyg Cynllun Tymor Canolig Integredig y cytunwyd arno.
- Graddau'r heriau ariannol.
- Pryderon o ran ansawdd rhai gwasanaethau.
- Prosesau uwchgyfeirio o Lywodraeth Cymru.

# Asesiad Strwythuredig 2013: Prif negeseuon

Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, daethom i'r casgliad canlynol:

- Mae gan y Bwrdd heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy. Mae'n ymwybodol o hyn ac mae tystiolaeth bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud. Fodd bynnag, mae angen iddo gadarnhau strwythur yr uwch dîm arwain ar fyrder er mwyn llywio'r gwelliannau pellach y mae angen eu gwneud i drefniadau llywodraethu mewnol ac atebolrwydd, er mwyn mynd ar drywydd ei waith cynllunio strategol a gweithredol a'i sefyllfa ariannol.

Roedd y crynodeb o'r meysydd a nodwyd i'w datblygu ymhellach yn cynnwys:

- Gwneud cynnydd cyflym o ran adnewyddu, datblygu a gweinyddu'r Bwrdd
- Atgyfnerthu rheolaethau mewnol ymhellach, yn enwedig y modd y caiff trefniadau llywodraethu ansawdd a diogelwch eu gweithredu.
- Roedd angen gwneud gwelliannau o ran:
  - trefniadau atebolrwydd er mwyn sicrhau newid a gwelliant; a
  - bod yn agored a chyfathrebu, yn fewnol ac yn allanol.

# Gwaith Dilynol o ran yr Adolygiad ar y Cyd: Prif negeseuon

**Nododd yr adolygiad ar y cyd a'r gwaith dilynol rywfaint o gynnydd ym mis Mehefin 2014, ond roedd cyflymder y newidiadau'n parhau i fod yn bryder**

Ar y pryd, gwelsom y canlynol:

- *Er bod tystiolaeth o gynnydd, a rhywfaint o gynnydd sylweddol, roedd nifer o'r heriau sylfaenol a nodwyd gennym y llynedd yn dal i fodoli ac roedd gan y Bwrdd Iechyd lawer o waith i'w wneud o hyd cyn y gellid ystyried bod ei drefniadau llywodraethu a rheoli yn gwbl addas at y diben.*
- *Y camau gweithredu a oedd yn weddill oedd y rhai mwyaf heriol a sylfaenol, ac er bod gwaith yn mynd rhagddo, roedd y ffaith na wnaed llawer o gynnydd amlwg yn peri pryder sylweddol.*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Heriau allweddol o ran Llywodraethu

Gwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC: themâu allweddol:

- effeithiolrwydd y Bwrdd;
- strwythurau rheoli ac arweinyddiaeth glinigol;
- trefniadau ansawdd a diogelwch;
- rheoli ariannol a chynaliadwyedd; a
- gweledigaeth strategol ac ad-drefnu'r gwasanaeth.

Sefydliad Llywodraethu Da, Medi 2014:

- *…there is still more work to be done to embed systems, develop strategy and corporate objectives, define risk appetite; implement the revised organisational structure and repopulate the corporate risk register and board assurance framework.*

# Nodau Asesiad Strwythuredig 2014

Mae Asesiad Strwythuredig 2014 wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd i gefnogi systemau llywodraethu da, a gwneud defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau.

- Mae'r gwaith archwilio'n rhan o asesiad parhaus ac mae wedi'i strwythuro o dan y meysydd canlynol:
  - **Rhan 1: rheoli ariannol** - iechyd ariannol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, gan gynnwys gwaith cynllunio ariannol a gwella costau;
  - **Rhan 2: llywodraethu'r busnes -** trefniadau sicrwydd a llywodraethu'r bwrdd, gan ganolbwyntio ar gynllunio strategol; a
  - **Rhan 3: rheoli adnoddau** - sut mae ffactorau galluogi allweddol o ran y defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn cael eu rheoli.
- Rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â materion allweddol a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig ac Adolygiadau ar y Cyd blaenorol.

# Rhan 1 - Rheoli Ariannol: Cwestiwn Archwilio Allweddol

**A oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn a chynaliadwy o reoli arian:**

- A oedd dull llwyddiannus a chynaliadwy o reoli arian ar waith yn 2013-14?
- A oes tystiolaeth o ddull cadarn a chynaliadwy o reoli arian yn 2014-15?

# Rheoli ariannol 2013-14

**Mae camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd ynghyd â chyllid adnoddau ychwanegol a broceriaeth gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn wedi ei alluogi i fodloni ei derfyn adnoddau refeniw ar gyfer 2013-14, ond nid oedd ei ddull rheoli ariannol yn gynaliadwy**

- Nid oedd cynllun cytbwys realistig na chadarn ar waith i fantoli'r gyllideb yn 2013-14.
- Dim ond o ganlyniad i gymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru y cyflawnwyd y Terfyn Adnoddau Refeniw (fel dau fwrdd iechyd arall), gan gynnwys broceriaeth ad-daladwy gwerth £2.25 miliwn ar ôl diwedd y flwyddyn.
- Methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei dargedau o ran rhaglenni gwella costau - roedd angen gwneud arbedion gwerth £78.05 miliwn yn 2013-14:
  - nodwyd a chyflawnwyd tua £40 miliwn; ac
  - ni nodwyd cynlluniau/rhaglenni gwella costau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch ariannu yn llawn.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rheoli ariannol 2014-15

**Methodd y Bwrdd Iechyd â sicrhau dull cadarn a chynaliadwy o reoli arian yn 2014-15 ac mae'n wynebu risg sylweddol iawn na fydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol**

- Erys gwaith cynllunio a rheoli ariannol yn heriol tu hwnt - roedd y rhagolwg o orwariant blynyddol 'mwyaf tebygol' yn adroddiadau'r Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru wedi dyblu bron rhwng y pumed a'r chweched mis (£63 miliwn erbyn hyn)
- Mae cynlluniau arbedion annigonol wedi cael eu nodi a'u gweithredu hyd yma:
  - nodwyd arbedion gwerth £31 miliwn yn y chweched mis yn erbyn gofyniad arbedion o £92 miliwn (bwlch ariannu)
  - nid oes cynlluniau/rhaglenni gwella costau ychwanegol wedi'u nodi eto i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu yn llawn.

# Rheoli ariannol 2014-15 (parhad)

- Mae'n annhebygol y bydd camau lliniaru, gan gynnwys nodi arbedion ychwanegol, defnyddio cronfeydd wrth gefn amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth a mesurau eraill yn ddigon i gau'r bwlch.
- Mae pwysau ychwanegol o ran cost, gan gynnwys costau asiantaeth (meddygol a nyrsio) misol sy'n sylweddol uwch na'r hyn a welwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol, yn tanseilio cynnydd wrth fynd i'r afael â'r diffyg yn ystod y flwyddyn.
- Heriau ariannol na welwyd eu tebyg o'r blaen yn y tymor canolig – mae'r Strategaeth Gyllidebol flynyddol ar gyfer 2014-15 yn rhagweld her ariannol gynyddol a fydd yn cynyddu i £186 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17.
- Ychydig o gynnydd a wnaed o ran yr angen brys i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn glinigol, ynghyd ag integreiddio gwasanaethau cymorth yn fwy.

# Casgliad Cyffredinol ynghylch Rhan 1: rheoli ariannol

**Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull rheoli ariannol cadarn na chynaliadwy o fewn blwyddyn nac yn y tymor canolig eto**

- Mae camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd ynghyd â chyllid adnoddau ychwanegol a broceriaeth gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn wedi ei alluogi i fodloni ei derfyn adnoddau refeniw ar gyfer 2013-14, ond nid oedd ei ddull o reoli ariannol yn gynaliadwy.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu â sicrhau dull cadarn a chynaliadwy o reoli arian yn 2014-15 ac mae'n wynebu risg sylweddol iawn na fydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

# Rhan 2 – Llywodraethu'r Busnes: Cwestiwn Archwilio Allweddol

**A oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn i gefnogi systemau llywodraethu da? Meysydd ffocws a gynhwyswyd:**

- Cynllunio strategol.
- Strwythur y sefydliad.
- Prosesau sicrwydd y bwrdd a rheolaethau mewnol, gan gynnwys:
  - strwythurau llywodraethu;
  - rheoli risg; a
  - gwybodaeth reoli.
- Rheoli perfformiad.
- Llywodraethu gwybodaeth.
- Gwaith dilynol o ran materion llywodraethu a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllunio strategol

**Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen brys i ddiffinio dyfodol Gwasanaethau Iechyd Gogledd Cymru ond prin yw'r cynnydd a wnaed i ddatblygu cyfeiriad strategol y cytunwyd arno'n gyhoeddus**

- Ni chymeradwywyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd statudol ym mis Mawrth 2014 (er nad hwn yw'r unig fwrdd iechyd yn y sefyllfa hon), ac mae'r cynllun blwyddyn yn uchelgeisiol.
- Mae gweledigaeth ddatblygol, ond hyd yma ceir diffyg manylion a chynlluniau clir i'w trafod yn ffurfiol yn gyhoeddus.
- Ceir uchelgais ymestynnol i roi strategaeth newydd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon drwy ei chynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bylchau mewn adnoddau/arbenigedd, ac mae wedi comisiynu Deloitte i helpu i ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd ar gyfer mis Ionawr 2015.
- Gwnaed llawer o waith y tu ôl i'r llenni er mwyn helpu i ddatblygu'r Cynllun, gyda chleifion, partneriaid a gwleidyddion.
- Mae'r Cynllun yn gyfle i ddechrau ailennyn hyder y cyhoedd.

# Strwythur a gallu sefydliadol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Mae strwythur sefydliadol newydd wedi cael ei lunio ac ymgynghorwyd yn ei gylch, ond nid yw wedi'i weithredu eto, sy'n ychwanegu at ansicrwydd, ac mae'r amserlen yn heriol**

- Mae angen mynd i'r afael â gwendidau hirsefydledig mewn strwythur sefydliadol Grwpiau Rhaglenni Clinigol ar frys.
- Mae'r amser a gymerwyd i ddatrys penodiad CEX wedi effeithio ar gyflymder y newid hyd yma.
- Penodwyd rhai swyddogion gweithredol allweddol newydd, ond nid yw'r tîm ar waith yn llawn eto, ac mae rhagor o newidiadau i linellau adrodd a chyfrifoldebau yn yr arfaeth.
- Ymgynghorwyd yn llawn ar y strwythur sefydliadol newydd o angenrhaid ac ymgysylltwyd â'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y strwythur, er bod hyn wedi:
  - effeithio ar gyflymder;
  - ychwanegu at ansicrwydd gan nad yw'r strwythur wedi'i gymeradwyo'n derfynol eto; a
  - rhoi pwysau ar amserlenni, gan olygu y bydd cyflwyno'r strwythur yn llawn y flwyddyn ariannol hon yn heriol.
- Risgiau posibl sylweddol o anhrefn hyd nes y bydd y strwythur ar waith.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Prosesau sicrwydd y bwrdd a rheolaethau mewnol

**Er bod gweinyddiaeth y Bwrdd wedi gwella, mae angen atgyfnerthu prosesau sicrwydd cyffredinol y Bwrdd ymhellach.**

- Rwyf wedi gweld gwelliannau o ran ansawdd papurau, eu hamseroldeb a'r ffordd y cynhelir cyfarfodydd, ond erys lle o hyd i fyrhau cyfarfodydd, gwella eglurder papurau, ac atgyfnerthu adroddiadau sicrwydd gan Bwyllgorau'r Bwrdd.
- Ceir tystiolaeth bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio yn fewnol, a bod heriau pwysig yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd, ond mae angen gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy priodol er mwyn cael sicrwydd ehangach.
- Ceisiodd y Bwrdd Iechyd gyngor allanol i atgyfnerthu ei fframwaith sicrwydd a risg, a'i strwythurau pwyllgor - ond nid ydynt wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol na'u gweithredu eto.
- Mae adolygiad cyflawn o'r gofrestr risgiau a phrosesau rheoli risg yn mynd rhagddo. Nid oedd pob risg sylweddol wedi'i chynnwys ar y gofrestr risgiau ym mis Hydref ac mae rhywfaint o'r iaith yn aneglur (ee, disgrifiadau o risgiau).
- Mae rheolaethau mewnol wedi gwella ond mae angen gwneud rhagor o gynnydd e.e. Archwiliad Clinigol, cynnydd o ran gweithredu argymhellion gan ffynonellau allanol
- Ceir arwyddion cynnar o gynnydd o ran diwylliant agored a gonest: mae'r datganiad ansawdd blynyddol yn llawer cryfach eleni.
- Dangosodd gwendidau mewn trefniadau llywodraethu a ddatgelwyd gan brosiect cyfalaf Ysbyty Glan Clwyd ddiffyg her a throsolwg cadarn y mae'r Bwrdd Iechyd ers hynny wedi ceisio mynd i'r afael â hwy.

# Gwybodaeth reoli

**Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen iddo wella gwybodaeth reoli sy'n sail i brosesau sicrwydd a phenderfyniadau'r bwrdd ymhellach**

- Sesiwn ddatblygu'r Bwrdd ar 30 Hydref i amlinellu gofynion gwybodaeth reoli - caiff adroddiad newydd ei lunio o fis Rhagfyr 2014.
- Bydd angen i'r adroddiad newydd fynd i'r afael â phryderon blaenorol ynghylch y canlynol:

  - Crynhoi a thriongli materion allweddol.

  - Gwasanaethau a gomisiynwyd - sut mae'r Bwrdd yn gwybod bod ansawdd y gwasanaethau hyn yn ddigonol?

  - Gwybodaeth annigonol am wasanaethau cymunedol, heb unrhyw wybodaeth reolaidd i'r Bwrdd.
- Mae'r adroddiad ar ansawdd a pherfformiad (i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch) yn ceisio dwyn ynghyd yr holl wybodaeth reoli, ond mae'n rhy hir, nid oes unrhyw driongli, ac mae'n anodd nodi meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt;  mae angen iddo gynnwys dangosfwrdd.
- Mae pryderon difrifol mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn nodi'r angen i ddatblygu systemau adrodd gwybodaeth reoli arfaethedig gwell.
- Y cam nesaf yw adroddiad llywodraethu integredig.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rheoli perfformiad

**Mae’r Prif Weithredwr newydd wedi atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad, ac er bod arwyddion o gynnydd mewn perfformiad mewn rhai meysydd, nid yw'r darlun cyffredinol yn erbyn targedau cenedlaethol allweddol yn un cadarnhaol**

- Cyflwynwyd Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn lle'r Tîm Gweithredol.
- Mae 'cyfarfodydd perfformiad' bellach yn cael eu cynnal bob mis gyda swyddogion gweithredol allweddol.
- Bwriedir creu strwythur newydd er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd, a bydd angen ailystyried y fframwaith atebolrwydd mewn perthynas â'r strwythur newydd.
- Fodd bynnag, yn y dyfodol, mae angen mynd i'r afael â heriau oherwydd:

  - mae perfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth wedi dirywio ers 2013 ac nid yw'n unol â thrywyddion gwella'r Bwrdd Iechyd ei hun; a

  - cheir rhai arwyddion cynnar o welliant (e.e. strôc, gofal diogel, ac atal) ond mae angen gwella perfformiad ar fyrder mewn perthynas ag amrywiaeth eang o dargedau eraill (canser, gofal brys, amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth).

# Llywodraethu gwybodaeth

**Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth wrthi'n cael eu hadolygu a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar eu heffeithiolrwydd yn gynnar yn 2015**

# Ymateb i faterion llywodraethu: asesiad strwythuredig y llynedd

**Erys cyflymder gwelliant yn bryder a bydd yn cymryd amser i ailennyn hyder y cyhoedd**

- Gwnaed cynnydd ar draws nifer o feysydd dan arweiniad swyddogion gweithredol unigol.
- Mae'r modd y creffir ar ansawdd a diogelwch ar lefel Bwrdd Iechyd a Grŵp Rhaglenni Clinigol wedi gwella, a cheir enghreifftiau o gamau'n cael eu cymryd lle bo angen, ond:

\- mae lle i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a Gwella wneud gwaith hidlo; a chymerodd amser i ddatblygu'r gwaith o gydlynu amseroedd cyfarfodydd (y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a Gwella a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch) a sicrwydd.

- Mae'r broses o gofnodi a dysgu o brofiad defnyddwyr, digwyddiadau a chwynion wedi gwella'n sylweddol ers diwedd 2013, ac rydym yn cydnabod bod llawer o'r cynnydd hwn o ganlyniad i'w dwyn ynghyd o dan un swyddog gweithredol arweiniol a gwella adnoddau o ran uwch swyddogion.
- Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd o ran cofnodi a dysgu o bryderon staff yn amlwg eto.
- Bydd yn cymryd amser i ailennyn hyder.
- Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau yn cael ei olrhain a'i gofnodi bellach, ond caiff papurau sicrwydd Pwyllgorau eu gweithredu â strwythur pwyllgorau newydd.
- Mae'r gallu i graffu wedi gwella o ganlyniad i benodi Cynghorwyr newydd i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, a bydd pedwar penodiad ym maes Rheoli Newid yn 2015..

# Casgliad Cyffredinol ynghylch Rhan 2: trefniadau llywodraethu

**Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, ond erys maint yr her yn sylweddol o hyd ac mae angen cyflwyno newidiadau yn gyflymach**

- Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen brys i ddiffinio dyfodol Gwasanaethau Iechyd Gogledd Cymru ond prin yw'r cynnydd a wnaed i ddatblygu cyfeiriad strategol y cytunwyd arno'n gyhoeddus.
- Mae strwythur sefydliadol newydd wedi cael ei lunio ac ymgynghorwyd yn ei gylch, ond nid yw wedi'i weithredu eto, sy'n ychwanegu at ansicrwydd, ac mae'r amserlen yn heriol.
- Er bod gweinyddiaeth y Bwrdd wedi gwella, mae angen atgyfnerthu prosesau sicrwydd cyffredinol y Bwrdd ymhellach.
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen iddo wella gwybodaeth reoli sy'n sail i brosesau sicrwydd a phenderfyniadau'r bwrdd ymhellach.
- Mae'r Prif Swyddog Gweithredol newydd wedi atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad, ac er bod arwyddion o gynnydd mewn perfformiad mewn rhai meysydd, nid yw'r darlun cyffredinol yn erbyn targedau cenedlaethol allweddol yn un cadarnhaol.
- Erys cyflymder gwelliant yn bryder a bydd yn cymryd amser i ailennyn hyder y cyhoedd.

# Rhan 3 – rheoli adnoddau: Cwestiwn Archwilio Allweddol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**A yw ffactorau galluogi allweddol o ran y defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn cael eu rheoli'n briodol? Roedd y meysydd ffocws yn cynnwys:**

- Rheoli newid.
- Y gweithlu a chynllunio'r gweithlu.
- Rheoli asedau.
- Gweithio mewn partneriaeth.
- Ymgysylltu â'r gymuned.
- Defnyddio technoleg a systemau TGCh.
- Gwaith dilynol ar faterion yn ymwneud ag adnoddau a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

# Rheoli newid

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau cynllunio a rheoli newid wedi bod yn effeithiol ac mae wrthi'n sefydlu trefniadau newydd**

- Erys gwaith cynllunio ar gyfer newid gwasanaethau yn her:

  - ni chafodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gymeradwyo yn 2014, ac nid yw'r cynllun blwyddyn ar y trywydd iawn; a

  - chomisiynwyd Deloitte i helpu i ddatblygu Cynllun newydd.

- Nid yw'r trefniadau rheoli newid wedi bod yn effeithiol hyd yma o ran sefydlu modelau newydd o wasanaethau a ddarperir, ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn ailystyried hyn;

  - y swyddfa rheoli rhaglenni newydd, swyddogaethau rheoli gweithredol, gwella a gweithredu, ac nid oes unrhyw swyddogaeth weithredu ar wahân yn cael ei hailystyried; a

  - chaiff sgiliau arwain newid eu lledaenu ar wasgar ar draws swyddogaethau amrywiol yn gorfforaethol, o fewn Grwpiau Rhaglenni Clinigol ac mewn perthynas â rheoli safleoedd, ac erys cwestiynau ynghylch y gallu i lywio'r newidiadau angenrheidiol.

# Gweithlu

**Erys materion o ran y gweithlu yn heriol yn niffyg strategaeth gwasanaeth ac mae'r nifer uchel o staff dros dro yn achos pryder**

- Mae canllawiau a chymorth gan y gweithlu bellach ar waith, ond prin yw'r adnoddau.
- Nid oes darpar fodel gwasanaethau i gynllunio ar ei gyfer, sy'n golygu ei bod hi'n anodd cynllunio'r gweithlu.
- Erys heriau sylweddol o ran y gweithlu, gyda ffocws penodol ar recriwtio meddygon a nyrsys a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd:
  - Mae'r gwariant ar staff banc ac asiantaeth yn cynyddu, ac yn debygol o fynd y tu hwnt i £20 miliwn, sef y ffigur ar gyfer 13/14. Mae 20 y cant o'r gweithlu yn feddygon locwm ac mae rhai rotâu yn gwbl ddibynnol ar feddygon locwm.
  - Er bod lefelau salwch ychydig uwchlaw'r targed o 5.1 y cant, maent yn cymharu'n dda â gweddill Cymru.
  - Erys recriwtio yn her gyda bylchau mewn proffesiynau allweddol ac oedi mawr cyn llenwi swydd wag – ond gwelwyd cynnydd cadarnhaol o ran recriwtio nyrsys yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf o'r UE.
  - Mae gwybodaeth arfarnu a hyfforddi yn annibynadwy, ac mae'r prif gyfraddau yn wael mewn llawer o feysydd.

# Partneriaethau ac ymgysylltu â'r Gymuned

**Erys ymgysylltu â'r cyhoedd yn heriol, er bod rhai partneriaid yn obeithiol y bydd y strwythur sefydliadol newydd yn gweddnewid cydberthnasau**

- Mae partneriaid Llywodraeth Leol yn gadarnhaol ynglŷn â'r strwythur newydd arfaethedig a'r arweinyddiaeth newydd.
- Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o ad-drefnu gwasanaethau yn amlwg iawn, ac mae'r cyhoedd a'u dirprwyon (ACau ac ati) yn canfod bod diffyg gonestrwydd a thryloywder, sy'n creu amgylchedd gwrthwynebus.
- Wrth i'r strwythur newydd gael ei roi ar waith, bydd angen i'r BI wneud rhagor o waith ar y canlynol:
  - llunio ffyrdd newydd o ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned ehangach yng Ngogledd Cymru;
  - Bod yn fwy agored a thryloyw er mwyn helpu i ail-feithrin cydberthnasau ac annog trafodaethau rhesymol ynglŷn â sut beth yw gwasanaethau cynaliadwy; ac
  - eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid
  - defnyddio adborth ar wasanaethau presennol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn llywio blaenoriaethau a monitro gwasanaethau (cyd-gynhyrchu).

# Ymateb i'r materion yn ymwneud â defnyddio adnoddau a nodwyd y llynedd

**Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â pherfformiad gwael o hyd mewn perthynas â nifer o ddangosyddion ansawdd, hygyrchedd ac effeithlonrwydd allweddol**

- Mae nifer o gamau heb eu cymryd, e.e. o ran meddygon Locwm, trefniadau staffio wardiau a chleifion allanol, y gallu i reoli newid, cynllunio er mwyn llywio gwelliant.
- Atchwel nifer o dargedau haen un, er bod rhai ohonynt wedi gwella (bwndeli strôc ac ati).

# Casgliad Cyffredinol ynghylch Rhan 3: rheoli adnoddau

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ganddo broblemau o ran cynllunio a rheoli newid nad yw wedi mynd i'r afael â hwy yn ddigon cyflym, ac mae angen iddo sefydlu deialog adeiladol â rhanddeiliaid yn fwy cyffredinol yn y gogledd**

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau cynllunio a rheoli newid wedi bod yn effeithiol ac mae wrthi'n sefydlu trefniadau newydd.
- Erys materion o ran y gweithlu yn heriol heb strategaeth gwasanaeth ac mae'r nifer uchel o staff dros dro yn achos pryder.
- Erys ymgysylltu â'r cyhoedd yn heriol, er bod rhai partneriaid yn obeithiol y bydd y strwythur sefydliadol newydd yn gweddnewid cydberthnasau.
- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â pherfformiad gwael o hyd mewn perthynas â nifer o ddangosyddion ansawdd, hygyrchedd ac effeithlonrwydd allweddol.
- Cydnabyddir yr heriau allweddol hyn gan y Bwrdd Iechyd a byddwn yn canolbwyntio arnynt fel rhan o Asesiad Strwythuredig 2015.

# Casgliad cyffredinol: Asesiad Strwythuredig 2014

**Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, yn gyffredinol mae newid yn araf, ac erys heriau sylweddol o ran cyllid, llywodraethu a pherfformiad:**

- Rhan 1: Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull rheoli ariannol cadarn na chynaliadwy o fewn blwyddyn nac yn y tymor canolig eto.
- Rhan 2: Mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, ond erys maint yr her yn sylweddol o hyd ac mae angen cyflwyno newidiadau yn gyflymach.
- Rhan 3: Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ganddo broblemau o ran cynllunio a rheoli newid nad yw wedi mynd i'r afael â hwy yn ddigon cyflym, ac mae angen iddo sefydlu deialog adeiladol â rhanddeiliaid yn fwy cyffredinol yn y gogledd.

# Heriau

**Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nifer o heriau sylweddol o ran cyflymder newid, y gallu i gyflawni a graddau heriau gwasanaethau**

- Mae problemau difrifol o ran ansawdd a diogelwch a lefel ddwys y sylw beirniadol a roddir yn golygu bod unigolion allweddol yn canolbwyntio'n gywir ddigon ar y problemau hyn, sy'n lleihau eu gallu personol i lywio'r newidiadau angenrheidiol yn ddigon cyflym.
- Mae diffyg gweledigaeth strategol **derfynol** a Chynllun Tymor Canolig Integredig yn rhwystr sylweddol i gynnydd mewn sawl ffordd.
- Bydd yr angen i fynd i'r afael â nifer o heriau sylweddol ar yr un pryd yn rhoi pwysau ar arweinwyr y BI ac yn creu risgiau o ran cyflymder newid ac ailennyn hyder yn y Bwrdd Iechyd.
- Mae gwneud nifer o newidiadau ar yr un pryd yn erbyn cefndir o berfformiad gwael hanesyddol - ac adnoddau prin - yn cynyddu'r risg o fethu â blaenoriaethu a llywio gwelliant.

# Argymhellion

**Byddwn yn ysgrifennu at y Prif Swyddog Gweithredol er mwyn nodi'n fanwl yr argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn, yng nghyd-destun y gwaith dilynol arfaethedig o ran yr adolygiad ar y cyd yn y Gwanwyn.**

- Ymdrin â chanfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad ar y Cyd.
- Rhaid i'r sicrwydd a roddir i'r Bwrdd gan Bwyllgorau gael ei atgyfnerthu ochr yn ochr â'r strwythur Pwyllgorau newydd.
- Mae angen cynnal y cynnydd cyflym o ran y strwythur sefydliadol a'r strategaeth [Cynllun Tymor Canolig Integredig].
- Datblygu Tîm y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn barhaus.
- Ffocws parhaus ar fod yn agored ac yn dryloyw er mwyn meithrin hyder y cyhoedd.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Camau Nesaf

**Adrodd ar gynnydd y gwaith a wnaed ar gyfer asesiad strwythuredig 2014:**

- cyflwyno adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Rhagfyr; a
- chrynodeb o'r negeseuon allweddol yn ein Hadroddiad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014.

**Ffocws gwaith parhaus yn 2015**

- ffocws y gwaith ar gyfer yr asesiad strwythuredig rhwng mis Ionawr a mis Mai 2005 (adolygiad manylach o'r broses o gyflawni newid a gwybodeg);
- gwaith dilynol pellach o ran yr Adolygiad ar y Cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC yn y Gwanwyn (gan gynnwys rheoli risg a sicrwydd y Bwrdd); a
- rhagor o waith ar asedau a phartneriaethau/ymgysylltu yn ddiweddarach yn 2015.